



655 Rho in gofio angau lesu

ALLTUD EIFION.

Rho in gofio angau lesu
 gyda diolchiadau llawn,
 a chael derbyn o rinweddau
 maith ei wir, achubol lawn;
 bwyta'i gnawd drwy ffydd ddiffuant,
 yfed gwaed ei galon friw,
 byw a marw yn ei heddwch:
 O'r fath wir ddedwyddwch yw.

Addfwyn Iesu, dangos yma
 ar dy fwrdd d'ogoniant mawr,
 megis gynt wrth dorri bara
 ymddatguddia inni nawr;
 bydd yn wledd ysbrydol inni
 er cyfnerthu'n henaid gwan,
 gad in brofi o'r grawnsypiau
 nes cael gwledd y nef i'n rhan.